



POLISI TALU A RHYDDHAD O DALU AM WEITHGAREDDAU 2019/20

- Mae Deddf Addysg 1988 yn gosod rheolau am daliadau y gellir eu hawlio mewn perthynas ag addysg a gweithgareddau addysgol. Yn gyffredinol y polisi ar daliadau a chyfraniadau yw codi tál lle y caniateir hyn a hefyd gwahodd cyfraniadau gwirfoddol lle y caniateir rhain.
- Ni chodir tál am addysg yn ystod oriau ysgol, nac am addysg y tu allan i oriau ysgol lle y bo angen yr addysg fel rhan o faes llafur arholiad allanol. Gellir gofyn am gyfraniadau gwirfoddol yn yr achosion a nodir isod ond nid oes hawl mynnu bod rhieni'n talu ac ni ellir gadael allan unrhyw ddisgybl oherwydd dim cyfraniad.
- Gellir codi tál am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol nad sy'n ymwneud á gwaith arholiad yn benodol.
- Ystyrir fod gweithgaredd yn digwydd yn ystod oriau ysgol os yw 50% neu ragor o'r amser a gymerir (gan gynnwys teithio) yn digwydd yn oriau ysgol. Fel arall ystyrir ei fod yn digwydd y tu allan i oriau ysgol.

GWEITHGAREDDAU LLE GELLIR GOFYN AM DÁL

1. Gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol nad sy'n rhan o gwrs arholiad allanol
2. Bwyd a llety cyrsiau preswyl o unrhyw fath; tál am athrawon cyflenwi i warchod dros athrawon sydd ar gyrsiau preswyl.
3. Deunydd a chynhwysion ar gyfer y pynciau ymarferol, megis D&T, lle mae rhieni wedi mynegi'r dymuniad i gadw'r cynnyrch terfynol.
4. Taliadau trwsio (gan gynnwys cost adnewyddu lle bo'n addas) niwed a achoswyd gan gamymddwyn bwriadol ar ran disgybl.

Rhaid i'r tál adlewyrchu'r gost iawn

GWEITHGAREDDAU LLE NA ELLIR GOFYN AM DÁL OND GELLIR GOFYN AM GYFRANIADAU GWIRFODDOL

1. Gwibdeithiau o fewn oriau ysgol*
2. Gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol sy'n rhan o gwrs arholiad allanol*
3. Cyrsiau preswyl o fewn oriau ysgol sy'n gysylltiedig á chwrs arholiad allanol*
4. Deunydd, cynhwysion ac offer sydd eu hangen yn y pynciau ymarferol

* Gellir gofyn am fwy na'r gost iawn (tua 10%) er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn digwydd a bod pob plentyn yn mynd gan gynnwys y rhai nad sydd wedi cyfrannu.

POLISI TALU AM WERSI OFFERYNNOL/LLEISIOL

Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni i dalu am elfen o gost gwersi offerynnol arbenigol. Nid yw cyfanswm y cyfraniadau yn cwrdd á chost llawn y ddarpariaeth gynhwysfawr sydd ar gael o fewn yr ysgol.

Codir tál blynyddol o £100 am y flwyddyn. Gofynnir am y cyfraniad er mwyn cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth. Gellir talu am y gwersi ar hyd y flwyddyn ysgol.

Ni ofynnir i'r sawl sy'n derbyn cinio rhad i gyfrannu at gost y gwersi offerynnol.

(Adolygwyd: Medi 2019)